



## DIWEDDARIAD CEREDIGION

Medi  
2014

### Newyddion a Datblygiadau

#### *Croeso i ddiweddariad Ceredigion...*

#### **Mae'n amser sôn am DORIADAU.**

Mae aelodau'r Fforwm eisoes wedi cael manylion am hyn a'r holiadur sy'n cael ei gylchredeg gan Gyngor Sir Ceredigion. Felly pam sôn am hyn yn y cylchlythyr hwn - oherwydd mae'n bwysig. Roedd y bwllch yn y gyllideb eleni yn £9 miliwn, ac am y flwyddyn ariannol nesaf, 2015/16, bydd yn £11 miliwn, sy'n swm anhygoel, ar gyfer 17/18 bydd yn £6 miliwn ac ar gyfer 19/20 bydd yn £5 miliwn pellach. Felly does dim dwywaith *Bydd Gwasanaethau'n Cael eu Torri*. Mae Cyngor Ceredigion wedi dweud nad yw'r arbedion effeithlonrwydd cyfredol yn gynaliadwy, *bydd* rhai gwasanaethau yn dod i ben, *bydd* rhai yn newid a *bydd* yn cael effaith ar lefelau staffio. Rydym ni eisoes wedi gweld y Cyngor yn torri ei addewid ynghylch yr adeilad newydd ar gyfer Canolfan Meugan. Er bod y gwaith mewnol heb gael ei gwblhau eto, maen nhw wedi rhoi'r gorau i'r syniad o estyniad! Rwy'n poeni os ydym ni'n gadael pethau iddyn nhw byddan nhw'n gweld ein gwasanaethau anabledd dysgu fel targed hawdd. Ni allwn adael i hynny ddigwydd. Mae'r holiadur ar gael yn: <http://www.ceredigion.gov.uk/English/Your-Council/Its-Time-to-Talk-Cuts/Pages/default.aspx>.

#### ***Mae rôl bwysig gan Fforwm Cymru Gyfan i'w chwarae ar ddau o bum grŵp technegol Llywodraeth Cymru sy'n ystyried y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.***

Mae cymryd rhan mewn grwpiau technegol drwy wahoddiad yn unig (caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn ddiweddarach eleni). Mae'r Fforwm yn chwarae rôl bwysig yn y grŵp Asesu a Chynllunio Gofal sydd wedi bod yn ystyried y prosesau asesu presennol, beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim ac ati. Bydd y grŵp yn llunio adroddiad sy'n argymhell arferion da ac yn darparu arweiniad ac offer ar beth ddylid ei gynnwys yn y rheoliadau ar gyfer y Ddeddf. Mae'r Fforwm hefyd wedi cael ei wahodd i ymuno â'r grŵp Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r grŵp hollbwysig hwn heb gwrdd eto oherwydd ni all y rôl gael ei diffinio nes bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyngor gan y grwpiau technegol, yn penderfynu beth sydd i'w gynnwys yn y Ddeddf. Yn y pen draw dyma beth sy'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr ei reoli, gan sicrhau gwasanaeth priodol ar lawr gwlad. Mae'n wych bod rôl mor bwysig gan y Fforwm i'w chwarae ar y ddau grŵp dylanwadol hyn ar ran rhieni sy'n ofalwyr.

*Cofion gorau, Roger*

#### **DYDDIADAU A DIGWYDDIADAU I'CH DYDDIADUR**

#### **Cyfarfod Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion**

**Nos Fercher 1 Hydref**

**18:30 (6.30pm)**

**Gwesty'r Plu Aberaeron.**

**Siaradwr i'w drefnu.**

+++++

#### **Gwasanaeth Gofalwyr Y Groes Goch Brydeinig**

Sesiwn hyfforddi Cymorth  
Cyntaf 2 awr AM DDIM yn cael  
ei chynnal i OFALWYR DI-  
DÂL ar ddydd Llun 6 Hydref 2 -  
4 pm yn **Neuadd Eglwys y**

**Drindod Aberaeron**. Diddordeb?

Cysylltwch â Kathryn Dupont,  
Gwasanaeth Gofalwyr y Groes  
Goch drwy ffonio 01974261712  
neu e-bostiwch

[kdupont@redcross.org.uk](mailto:kdupont@redcross.org.uk)

+++++

TPA yn eich gwahodd i SESIWN  
YMWYBYDDIAETH EPILEPSI  
i Rieni, Gofalwyr a Gweithwyr  
Iechyd Proffesiynol. **DYDD**

**LLUN 29 Medi, Swyddfeydd  
Penmorfa, Aberaeron.**

**12.30 / 2.30 NEU 4.30 / 6.30pm**

Cysylltwch â Rachel neu  
Yvonne, TPA drwy ffonio  
**01970 627016**

+++++

#### **WYTHNOS HENEIDDIO'N GADARNHAOL**

**28 Medi - 5 Hyd 2014**

Age Cymru, Ceredigion

**Dydd Mercher 1 Hydref .**

10 - 12.30am Tair sgetsh ar ffurf  
pantomeim yn Theatr Felinfach  
ac yna Ffair 50+ gyda 'phaned a  
chacen' **am ddim** yng Nghanolfan  
Morlan o 1 tan 6pm. I gael  
rhagor o wybodaeth cysylltwch â  
[gwynth.jones@accardigan.org.uk](mailto:gwynth.jones@accardigan.org.uk)

## Ff C G

### Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

Adeiladau Elliot  
21, Cardiff Road  
Ffynnon Taf  
Caerdydd. CF14 7RB  
Ffôn:  
02920 811120  
E-bost:  
roger@allwalesforum.org.uk

### Hyrwyddo buddiannau Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu



### Newyddion arall ...

Roedd noson agoriadol y clwb newydd, Clwb Gateway Aberaeron yn nhafarn The Prince of Wales yn Aberaeron yn llwyddiant mawr. I gael gwybodaeth am y cyfarfod nesaf neu i gynnig eich gwasanaethau fel gwirfoddolwr, cysylltwch â Jan Kench, ffôn 01239 711112.

### **Archwiliad Iechyd Blynyddol Anabledd Dysgu**

Cafodd archwiliad iechyd blynyddol Cymru ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ei gyflwyno'n benodol yng Nghymru yn Ebrill 2006 fel Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd i hyrwyddo canfod yn gynnar a thrin problemau iechyd pobl ag anableddau dysgu. Y rhwystrau a welwyd i ofal sylfaenol o ansawdd uchel oedd anawsterau cyfathrebu, natur anghysurus rhai anawsterau ymddygiadol a diffyg hyfforddiant meddygon teulu ar anghenion arbennig y boblogaeth hon, gan gynnwys sut i gyfathrebu'n effeithiol. Rwy'n siŵr ers 2006 y bydd y sefyllfa hon wedi newid ychydig er gwell, ond rydw i wedi cylchredeg manylion am yr hyn y dylai archwiliad iechyd blynyddol ei gynnwys (gan gynnwys dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Ewrop) i bob aelod o'r Fforwm. Hoffwn i ofyn i bob aelod sicrhau bod eu hanwyliaid yn cael yr archwiliad iechyd hwn, ac os nad ydyn nhw'n hapus â'r ffordd y cafodd ei gynnal, yn ogystal â gwneud cwyn ffurfiol, dylen nhw roi gwybod i mi er mwyn i mi gasglu gwybodaeth.

## YMGYNGHORIAD

## Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion

### Ymgynghoriad ar Ddiwygio

"Rheoliadau Defnyddio Cerbydau Pobl  
Anabl ar Briffyrdd 1988"

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eich barn ar gerbydau symudedd. Mae'r ymgynghoriad yn cwmpasu cynigion i ddiwygio terfyn pwysau cadeiriau olwyn wedi'u pweru Dosbarth 2 yn ogystal â diwygio terfyn pwysau sgwteri symudedd Dosbarth 3. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion hyn i wella symudedd pobl anabl sy'n defnyddio cerbydau symudedd. I gael yr holl wybodaeth, cysylltiadau â'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflen ymateb, ewch i:

<http://wales.gov.uk/consultations/transport/amend-invalid-carriages/?lang=en>

Ymgynghoriad yn dod i ben: 31/10/2014

**Swyddog Datblygu Rhanbarthol Fforwm**

### **Cymru Gyfan Ceredigion - Newid Oriau.**

Bydda i'n gweithio bob dydd Mawrth a hanner diwrnod ar ddydd Iau. Efallai y bydd yn cymryd ychydig bach yn hwy i ymateb i ymholiadau y tu allan i'r diwrnodau hyn. Byddaf yn parhau i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ar draws y sir waeth pa ddiwrnod o'r wythnos y cânt eu cynnal. Wrth gwrs, os oes gan unrhyw riant broblem bwysig sydd angen ymateb cyflym, dylen nhw barhau i ffonio yn ôl yr arfer unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Mae'r manylion cyswllt yn parhau yr un fath - gweler isod.

### Fforwm Cymru Gyfan

Swyddog Datblygu Gofalwyr Ceredigion  
Roger Colman

E-bost [roger@allwalesforum.org.uk](mailto:roger@allwalesforum.org.uk)

Ffôn 01545 580232

Ymunwch â ni ar Facebook Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion